**WHC/2023/018**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi:** 14-06-2023

**STATWS: CYDYMFFURFIO**

**CATEGORI:**
**TECHNOLEG GWYBODAETH**

**Teitl: Cyflwyno HL7 FHIR fel safon sylfaenol ar gyfer holl gyrff GIG Cymru**

**Dyddiad dod i ben / Dyddiad yr Adolygiad:** Mehefin 2026

**I'w weithredu gan:**

Byrddau Iechyd y GIG, Ymddiriedolaethau'r GIG, ac Awdurdodau Iechyd Arbennig y GIG

**Er gwybodaeth:**

Cyflenwyr Iechyd a Gofal Digidol

**Y cam gweithredu:**

Hysbysu cyrff GIG Cymru am y gofyniad i fabwysiadu HL7 FHIR fel safon rhyngweithredu sylfaenol, a rhoi cyngor am yr angen i gydymffurfio o fis Mehefin 2023 ymlaen.

**Anfonwr:** Mike Emery Cyfarwyddwr Digidol a Thechnoleg • Trawsnewid Digidol/Prif Swyddog Digidol, Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru.

**Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru:**

Amir Ramzan, Uwch-reolwr – Safonau Iechyd Digidol, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. E-bost: amir.ramzan@llyw.cymru

**Dogfennau Amgaeedig: Dogfen Ganllaw**

**Cylchlythyr Iechyd Cymru ynghylch cyflwyno HL7 FHIR fel safon sylfaenol ar gyfer holl gyrff GIG Cymru**

## Cefndir

- Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i fabwysiadu pedair egwyddor ganllaw ar gyfer data iechyd a gofal cymdeithasol; sef y dylai data fod yn hawdd cael hyd iddynt, yn hawdd cael mynediad atynt, yn rhyngweithredol, ac yn ddata y gellir eu hailddefnyddio, (sef *Findable, Accessible, Interoperable a Reusable* (FAIR)). Er mwyn cefnogi'r egwyddorion hyn, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod y dylid disgrifio data mewn perthynas â'u cystrawen, strwythur eu ffurfweddiad, eu geiriadur data neu setiau cyfeirio, gan fabwysiadu safonau agored lle bynnag y bo hynny'n bosibl er mwyn sicrhau bod y lefelau rhyngweithredu uchaf ar waith

- Drwy ddefnyddio dull gweithredu o'r fath a defnyddio safonau, gellir sicrhau nad oes angen gwneud ymdrech fawr i gael mynediad at ddata a gwneud synnwyr ohonynt. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus iawn i bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod safonau'n gydnaws â'r safonau presennol neu'r safonau dros dro a gynigir gan gyrff cenedlaethol a rhyngwladol, lle bo hynny'n bosibl.

## Y Gofynion Rhyngweithredu ar gyfer cefnogi egwyddorion canllaw FAIR.

- Felly, mae Llywodraeth Cymru yn cymryd y cam ffurfiol o orfodi'r Fast Healthcare Interoperability Resources (sef FHIR, sy'n cael ei ynganu fel y gair Saesneg "fire") fel safon ryngweithredu sylfaenol ar gyfer pob system TG a system/gwasanaeth digidol.

- Cafodd y safon ei chreu gan sefydliad safonau gofal iechyd Health Level Seven International (HL7), ac mae'n cynnwys set o reolau a manylebau ar gyfer cyfnewid data gofal iechyd electronig. Mae wedi ei llunio mewn modd sy'n golygu ei bod yn hyblyg ac y gellir ei haddasu er mwyn ei defnyddio mewn amrywiaeth eang o leoliadau a chyda gwahanol systemau gwybodaeth iechyd a gofal cymdeithasol. Nod HL7 FHIR yw galluogi dull o gyfnewid gwybodaeth sy'n ddiogel a di-dor, er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael y canlyniadau gorau posibl.

- Mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu y dylai fersiwn sefydlog briodol, sef *FHIR Release 4* ar hyn o bryd, ddod yn fersiwn ddiofyn. Bydd angen i unrhyw fersiynau eraill sy'n wahanol i honno gael cymeradwyaeth benodol gan Fwrdd Safonau Technegol Cymru ar gyfer is-barth neu achos defnydd penodol. Ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid iechyd a gofal cymdeithasol, bydd y Bwrdd yn datblygu matrics aeddfedrwydd i gefnogi proses mabwysiadu fesul cam a sgorio briodol wrth ystyried atebion mewn perthynas â chaffael.

- Mae mabwysiadu FHIR fel safon sylfaenol yn sicrhau cysondeb strategol rhwng cyrff GIG Cymru a phartneriaid ar draws y DU. Mae prosiect cydweithredol rhwng y pedair gwlad eisoes wedi cael ei sefydlu, gyda Chymru'n cymryd rhan lawn ynddo, er mwyn datblygu set gyffredin o broffiliau FHIR i'w defnyddio ar draws y DU. Mae'n cael ei hadnabod fel manylebau craidd HL7 FHIR UK (gweler <https://digital.nhs.uk/services/fhir-uk-core>). Bydd GIG Cymru yn parhau i gymryd rhan weithgar ym mhrosiect *UK Core*, gan ddefnyddio proffiliau *UK Core FHIR* fel sail ar gyfer gweithredu canllawiau FHIR ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.